**Atodiad 1**

OFFERYNNAU STATUDOL DRAFFT – DRAFFT 3 2/6/05

**2006**

**CYMUNEDAU EWROPEAIDD**

Rheoliadau (Asesu Effeithiau Amgylcheddol ar gyfer Dadgomisiynu) (Diwygio) Adweithyddion Niwclear 2006

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *[ ] 2006* |
| *Cyflwynwyd gerbron y Senedd* | *[ ] 2006* |
| *Dod i rym - -* | *[ ] 2006* |

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol, yn Weinidog a ddynodwyd[(a)] at ddibenion adran 2(2) Deddf Cymunedau Ewropeaidd 1972[(b)], mewn perthynas â mesurau sy'n ymwneud â'r gofyniad i gael asesiad o effaith amgylcheddol prosiectau sy'n debygol o gael effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd, wrth arfer y pwerau a gyflwynwyd iddo gan adran 2(2)(b) y Ddeddf honno, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

**Dyfynnu a dechrau**

1. Gellir galw'r Rheoliadau hyn yn Rheoliadau (Asesu Effeithiau Amgylcheddol ar gyfer Dadgomisiynu) (Diwygio) Adweithyddion Niwclear 2005 ac fe ddônt i rym ar [ ] 2006.

**Diwygio Rheoliadau (Asesu Effeithiau Amgylcheddol ar gyfer Dadgomisiynu) Adweithyddion Niwclear 1999**

**2.**-(1) Caiff Rheoliadau (Asesu Effeithiau Amgylcheddol ar gyfer Dadgomisiynu) Adweithyddion Niwclear 1999[(c)] eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ddiwedd rheoliad 3(3), ychwanegu "where the Secretary of State is of the opinion that application of these Regulations would have an adverse effect on the defence purposes of the project".

(3) Yn rheoliad 4(b), hepgor y geiriau "in accordance with regulation 8(3)".

(4) Yn rheoliad 9(1), ychwanegu'r canlynol ar ôl paragraff (i) —
"(j) that the project is subject to an environmental impact procedure;".

(5) Yn rheoliad 11(c)(ii), ar ôl "decision is based", ychwanegu ", including information about the public participation process".

(6) Yn rheoliad 12(6), rhoi "paragraph (5)" yn lle "paragraph (3)".

---

[(a)] O.S. 1988/785. Gweler hefyd Gorchymyn y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd (Diddymu) 2002 (O.S. 2002/794).
[(b)] 1972 c.68
[(c)] O.S. 1999/2982.b

(7) Yn rheoliad 13(1), rhoi “with the change or extention to the project and any other part of the project that the Executive may direct” yn lle “with the project”.

(8) Ar gyfer rheoliad 14, rhoi—
“**14.** Nothing in these Regulations shall require the disclosure by a body of information that it is entitled to disclose under regulations 12 and 13 of the Environmental Information Regulations 2004[(a)] or regulations 10 and 11 of the Environmental Information (Scotland) Regulations 2004[(b)]”.

Llofnodwyd drwy awdurdod yr Ysgrifennydd Gwladol

*Gweinidog*
Cyfeiriad — Is-ysgrifennydd Seneddol
Dyddiad — Adran…….

## NODYN ESBONIADOL
*(Nid yw’r nodyn hwn yn rhan o’r Rheoliadau)*

1. Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau (Asesu Effeithiau Amgylcheddol ar gyfer Dadgomisiynu) Adweithyddion Niwclear 1999 (O.S. 1999/2982).

2. Mae Rheoliadau 2(2), (4) a (5) yn gweithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 2003/35/CE dyddiedig 26 Mai 2003 sy’n darparu ar gyfer cynnwys y cyhoedd o ran llunio cynlluniau a rhaglenni penodol sy’n ymwneud â’r amgylchedd a diwygio o ran cynnwys y cyhoedd a mynediad i gyfiawnder Cyfarwyddebau’r Cyngor 85/337/EEC a 96/61/CE (O.J. L156, 25.6.2003, t. 17).

3. Mae Rheoliad 2(3) a (6) yn cywiro’r gwallau drafftio.

4. Mae Rheoliad 2(7) yn caniatáu i’r deiliad trwydded ohirio’r rhan o’r prosiect sy’n ddarostyngedig i newid yn ogystal ag unrhyw ran arall (gan gynnwys y prosiect cyfan) y gallai’r Awdurdod Gweithredol ei gyfarwyddo.

5. Mae Rheoliad 2(8) yn amnewid y cyfeiriad at Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 1992 (O.S. 1992/3240) gan gyfeirio at Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (O.S. 2004/3391) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (yr Alban) 2004 (S.S.I. 2004/520).

6. Gellir cael gafael ar gopi o’r asesiad o effaith reoleiddio a baratowyd o ran y Rheoliadau hyn o’r cyfeiriad canlynol: Health and Safety Executive, Rose Court, 2 Southwark Bridge, London SE1 9HS. Sicrhawyd bod copi yn llyfrgell pob Senedd.

---

(a) O/S/ 2004/3391
(b) O.S. yr Alban 2004/530.

**Atodiad 2**

**Asesiad Amgylcheddol o Brosiectau Dadgomisiynu Niwclear**

**ASESIAD EFFAITH REOLEIDDIO (Drafft – Rhannol)**
***(Diwygiad 4 – 1af Gorffennaf 2005)***

## DIBEN AC EFFAITH FWRIADEDIG

### Amcanion

1. Diben y rheoliadau diwygio hyn yw bodloni'r gofynion cyfreithiol i gywiro gwallau argraffyddol yn y Rheoliadau (Asesu Effeithiau Amgylcheddol ar gyfer Dadgomisiynu) Adweithyddion Niwclear 1999 (EIADR99) a gweithredu'r diwygiadau (perthnasol) a wnaed i gyfarwyddeb gychwynnol EIADR99, yn ogystal â chyflawni mwy o eglurder gweinyddol, effeithlonrwydd ac arbedion costau.

### Cefndir

2. Nododd y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol (JCSI) ddau wall argraffyddol y mae angen eu cywiro. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) gywiro'r gwallau hyn, yn ôl y gyfraith.

3. Nodwyd y diwygiad i gyflawni mwy o eglurder ac effeithlonrwydd gweinyddol gan HSE yn dilyn adolygiad mewnol o'r EIADR99. Bydd y diwygiad hwn yn osgoi (yn ddarostyngedig i gytundeb HSE) yr angen i ohirio'r prosiect dadgomisiynu *cyfan* os mai dim ond ar ran(nau) o safle sy'n arwain at effaith andwyol difrifol ar yr amgylchedd (SAEE) y bydd y newid/estyniad yn digwydd.

4. Mae'r newidiadau sy'n ofynnol drwy weithredu'r diwygiadau (perthnasol) a wnaed i gyfarwyddeb gychwynnol EIADR99; sef y Gyfarwyddeb Asesu Effeithiau Amgylcheddol (EIA) 85/337/CE, fel y'i diwygiwyd gan 97/11EC, yn bennaf ar gyfer egluro gofynion y mae'r EIADR99 eisoes yn cydymffurfio â hwy, yn ymarferol, er nad yw o bosibl yn amlwg yn y rheoliadau. Fodd bynnag, bydd un gofyniad yn cael gwared â'r eithriad hollgynhwysfawr o'r EIADR99 o brosiectau sy'n ymwneud ag amddiffyn. Bydd angen i'r diwygiad hwn gael ei asesu o achos i achos yn awr gan y Weinyddiaeth Amddiffyn o ran p'un a oes angen gwneud cais am eithriad penodol i'r EIADR99.

### Rhesymeg dros ymyrraeth y llywodraeth

5. Ysgogir y newidiadau sy'n ofynnol i ddiwygio'r gwallau argraffyddol gan yr angen i fodloni gofynion y JCSI. Nodwyd y diwygiad i gyflawni mwy o eglurder ac effeithlonrwydd gweinyddol gan HSE yn dilyn adolygiad mewnol o'r EIADE99. Mae'r Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear hefyd wedi nodi'n ddiweddar bod y sefyllfa hon yn haeddu ystyriaeth. Ysgogir y gyfres olaf o ddiwygiadau gan y gofynion i weithredu cyfarwyddeb UE ddiwygiedig (bydd methu â gweithredu'r diwygiadau sy'n ofynnol gan y newid i gyfarwyddeb gychwynnol EIADR99 yn arwain at achosion o droseddu).

6. Pe penderfynai HSE ‘wneud dim’ yn hytrach na gweithredu’r diwygiad effeithlonrwydd a ddisgrifir ym mharagraff 3, yna bydd yn rhaid i’r prosiect dadgomisiynu cyfan gael ei ohirio os mai dim ond ar ran(nau) o safle, lle y bydd y newid hwn yn arwain at SAEE, y bydd newid/estyniad yn digwydd. Cred HSE fod camau gweithredu o’r fath yn anghyfrannol i’r risgiau gwirioneddol i’r amgylchedd. Byddai camau gweithredu o’r fath hefyd yn arwain at oedi o ran y prosiect i’r deiliad trwydded, y gellid ei osgoi pe gwnaed y diwygiad hwn.

## OPSIYNAU

7. Caiff yr opsiynau canlynol eu hystyried:

**Opsiwn 1:** Parhau i gymhwyso’r rheoliadau presennol fel y nodir yn Offeryn Statudol *Rheoliadau (Asesu Effeithiau Amgylcheddol ar gyfer Dadgomisiynu) Adweithyddion Niwclear 1999.*

**Opsiwn 2:** Diweddaru’r rheoliadau presennol i ystyried newidiadau a wnaed i’r Gyfarwyddeb UE berthnasol (97/11/CE) a chanfyddiadau’r JCSI.

**Opsiwn 3:** Gweithredu cyfres newydd o reoliadau sy’n lleddfu’r baich ar weithredwyr safle tra’n cynnal y lefel bresennol o asesu amgylcheddol. Gweithredu newidiadau opsiwn 2 hefyd.

### Opsiwn 1

8. Yn 1999, cyflwynwyd cyfres o reoliadau i fynd i’r afael â diwygiad i’r Gyfarwyddeb UE sef y Gyfarwyddeb Asesu Effeithiau Amgylcheddol 85/337/EEC, a hwyluswyd gan Gyfarwyddeb y GE 97/11/CE. Nododd y rheoliadau hyn yr egwyddor bod yn rhaid i Ddatganiad Amgylcheddol gael ei gwblhau a’i gyflwyno i’r awdurdod cymwys (Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch) cyn y gellir caniatáu i brosiect dadgomisiynu weithredu ymhellach. Byddai’r Datganiad Amgylcheddol hwn yn cynnwys Asesiad Effeithiau Amgylcheddol. Nid yw’r rheoliadau’n gymwys i unrhyw brosiect sy’n “gwasanaethu dibenion amddiffyn cenedlaethol”.

9. Opsiwn 1 yw parhau i weithio o dan y rheoliadau hyn.

10. Ni fydd yr opsiwn hwn yn mynd i’r afael â’r amcanion a nodir ym mharagraff 1.

### Opsiwn 2

11. Ceir dau faes lle y mae’n rhwymedigaeth gyfreithiol ar HSE i gymryd camau gweithredu.
    - Mae Cyfarwyddeb yr UE a amlinellwyd o dan opsiwn 1 wedi’i diwygio ymhellach gan Gyfarwyddeb 2003/35/CE. Mae’r eithriad ar gyfer prosiectau sy’n “gwasanaethu amddiffyniad cenedlaethol” wedi’i ddileu a bydd angen i’r Weinyddiaeth Amddiffyn asesu pob prosiect dadgomisiynu yn ôl ei deilyngdod a naill ai gwneud cais am eithriad penodol gan yr Ysgrifennydd Gwladol perthnasol neu gynnal Asesiad o Effeithiau Amgylcheddol.
    - Mae’r Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol wedi nodi rhai gwallau argraffyddol y mae’n ofynnol i’r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch eu hegluro.

12. Byddai opsiwn 2 yn gweithredu newidiadau digonol o ran deddfwriaeth Brydeinig i fodloni gofynion y Gyfarwyddeb UE berthnasol a'r rheini a nodwyd gan y JCSI.

13. Mae'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â'r amcan i fodloni'r gofynion cyfreithiol perthnasol a nodwyd yn amcanion paragraff 1. Fodd bynnag, nid yw'n cyflawni'r amcan sy'n ymwneud â chynhyrchu rhai arbedion effeithlonrwydd.

**Opsiwn 3**

14. O dan y rheoliadau presennol, cyn i brosiect dadgomisiynu allu gweithredu ymhellach, mae'n rhaid i ddeiliad trwydded safle niwclear gyflwyno Datganiad Amgylcheddol (a chael rhywun i'w gymeradwyo). Os yw'r prosiect yn ddarostyngedig wedyn i newid neu addasiad nas rhagwelwyd a allai arwain at SAEE, yna mae'n rhaid i'r deiliad trwydded gyflwyno Datganiad Amgylcheddol newydd, a chael rhywun i'w gymeradwyo. Hyd nes y rhoddir cymeradwyaeth, mae'n rhaid i bob gwaith ar y prosiect gael ei ohirio. Byddai'r opsiwn hwn yn diwygio'r rheoliad i'r graddau lle mai dim ond yr adran honno, neu'r adrannau hynny, o'r safle y mae'r newid neu'r estyniad yn debygol o effeithio arnynt fydd yn gorfod gohirio'r gwaith.

15. Byddai opsiwn 3 yn gweithredu'r newidiadau hyn yn ogystal â'r newidiadau a amlinellwyd yn Opsiwn 2.

16. Mae opsiwn 3 yn mynd i'r afael â'r holl faterion a godwyd yn yr amcanion ym mharagraff 1.

**COSTAU A BUDDIANNAU**

17. Mae HSE wedi ymgynghori yn fewnol ac yn allanol o ran y costau i'r diwydiant (a'r Weinyddiaeth Amddiffyn) yn sgîl cynnal (ac oedi) prosiectau dadgomisiynu. Gall y broses ddadgomisiynu ar gyfer adweithyddion niwclear bara hyd at ganrif. Mae'r cyfnod arfarnu ar gyfer yr RIA hwn felly wedi ei bennu yn 100 mlynedd. Y cyfraddau gostyngiad safonol ar gyfer y Trysorlys ar gyfer prosiectau hirdymor yw 3.5% am hyd at 30 blynedd, 3.0% ar gyfer rhwng 31 a 75 mlynedd a 2.5% rhwng 76 a 100 mlynedd. Ar gyfer y ddogfen hon, defnyddiwyd cyfradd ostyngiad o 3%. Rhoddir pob pris ar ffurf gwerthoedd 2005 drwyddi draw.

18. Gwnaed nifer o dybiaethau yn y dadansoddiad canlynol a manylir arnynt yn y testun. Ymhlith yr enghreifftiau pwysig mae'r tybiaethau a wnaed o ran amserlen rhaglen ddadgomisiynu'r Weinyddiaeth Amddiffyn (y mae rhai o'i manylion yn ddosbarthedig) ac amlder tebygol "newidiadau neu estyniadau" i brosiectau dadgomisiynu sifil (a milwrol).

19. O ganlyniad i broffil uchel, a nifer fach y prosiectau dadgomisiynu niwclear, tybir bod cydymffurfiaeth â'r rheoliadau presennol yn agos at 100%. Tybir hefyd na fydd lefel y gydymffurfiaeth yn gostwng wrth gyflwyno unrhyw un o'r opsiynau a drafodwyd.

**Sectorau a grwpiau yr effeithir arnynt**

20. Bydd y newidiadau arfaethedig yn effeithio ar sefydliadau sector cyhoeddus (sifil a milwrol) sy'n gweithio ar brosiectau dadgomisiynu niwclear. Ar gyfer pob safle trwyddedig ym Mhrydain Fawr, gall nifer y staff a gyflogir (p'un ai gan y deiliad

trwydded neu gan gwmnïau sy'n ymgymryd â rhyw agwedd ar y gwaith is-gontractio) amrywio'n sylweddol. Er enghraifft, ar safle Magnox Electric, gall nifer y cyflogeion a gyflogir yn uniongyrchol gan y deiliad trwydded amrywio o 350 i 450. Mae'n debygol bod cwmnïau preifat yn gwneud rhywfaint o waith is-gontractio, sy'n amrywio yn ôl y prosiect a thros amser. Ystyrir hyn ymhellach ym mharagraffau 53-57.

## BUDDIANNAU

### Buddiannau cymdeithasol

***Opsiwn 1***

21. Nid oes unrhyw fuddiannau cymdeithasol rhagweledig ar gyfer opsiwn 1.

***Opsiwn 2***

22. Nid oes unrhyw fuddiannau cymdeithasol rhagweledig ar gyfer opsiwn 2.

***Opsiwn 3***

23. Os bydd "newid neu estyniad" sy'n achosi i SAEE ddigwydd, bydd opsiwn 3 yn galluogi i weithredwr safle barhau i weithio ar y rhan o'r safle nad effeithiwyd arni, tra o dan y drefn bresennol byddai'n rhaid iddo roi'r gorau i weithio ar y safle cyfan. Felly, byddai cyfanswm yr amser a gymerir i gwblhau'r prosiect yn llai a thybir y bydd hyn yn cyflwyno rhywfaint o fuddiant cymdeithasol o ran cael gwared â'r peryglon o'r safle yn gynt.

### Buddiannau amgylcheddol

***Opsiwn 1***

24. Ni fydd unrhyw fuddiannau ychwanegol o dan opsiwn 1.

***Opsiwn 2***

25. O dan yr opsiwn hwn, bydd yn ofynnol i'r Weinyddiaeth Amddiffyn naill ai gynhyrchu Datganiad Amgylcheddol, neu lunio rhyw gyfiawnhad am eithriad ar gyfer prosiect dadgomisiynu penodol. Gallai'r opsiwn hwn arwain at fynd i'r afael â rhai pryderon amgylcheddol na fyddent fel arall wedi cael eu hystyried. Fodd bynnag, nid yw'r buddiannau hyn wedi'u mesur hyd yma.

***Opsiwn 3***

26. Bydd y buddiant amgylcheddol posibl a nodwyd ar gyfer opsiwn 2 hefyd yn gymwys i opsiwn 3.

### Buddiannau Economaidd

***Opsiwn 1***

27. Nid oes unrhyw fuddiannau economaidd rhagweledig yn gysylltiedig ag opsiwn 1.

***Opsiwn 2***

28. Nid oes unrhyw fuddiannau economaidd rhagweledig yn gysylltiedig ag opsiwn 2.

***Opsiwn 3***

29. Er nad oes unrhyw fuddiannau economaidd uniongyrchol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn, ceir arbedion sylweddol o ran costau. Gan fod opsiwn 3 yn canolbwyntio ar yr arbedion costau hyn, fe'u cynhwysir yma.

30. O dan y drefn bresennol, os bydd newid neu estyniad i'r prosiect yn ei gwneud yn ofynnol i Asesiad Amgylcheddol newydd gael ei gynhyrchu, mae'n rhaid i weithredwr safle ohirio ei waith. Fodd bynnag, ni chaiff costau rhedeg y safle eu lleihau'n sylweddol felly nid oes llawer o arbedion costau uniongyrchol, tra bod y terfyn amser ar gyfer cwblhau'r prosiect yn cael ei ohirio. Fel rheol, mae'r broses o ffeilio Datganiad Amgylcheddol ac o gael rhywun i'w gymeradwyo yn cymryd blwyddyn. Ar gyfartaledd, 100 mlynedd yw amserlen prosiect dadgomisiynu niwclear sifil felly mae'n rhaid i gost yr estyniad blwyddyn gael ei ddiystyru i ystyried hyn. Ar gyfartaledd, mae'r costau rhedeg ar gyfer prosiect dadgomisiynu niwclear sifil tua £50,000,000 y flwyddyn, o ran prisiau 2005.

31. O dan opsiwn 3, dim ond cyfran o'r safle fydd yn gorfod gohirio gwaith. Caiff cyfanswm yr amser a gymerir i gwblhau'r prosiect ei ymestyn felly o lai na blwyddyn. Bydd y cyfnod penodol yn dibynnu ar fanylion pob cynllun dadgomisiynu felly ystyrir y posibiliadau canlynol:
(i) ymestyn hyd prosiect 8 mis (ar gyfer oedi cychwynnol o 12 mis)
(ii) ymestyn hyd prosiect 4 mis (ar gyfer oedi cychwynnol o 12 mis)

32. Rhennir prosiectau dadgomisiynu yn gamau a gall newidiadau i'r cynlluniau presennol ddigwydd ar unrhyw gam.[1] Mae'n anodd rhagweld faint o newidiadau a fydd, oherwydd eu natur. At ddibenion dangos, tybir y drefn newidiadau ganlynol (gan gynnwys tair sefyllfa bosibl):

| | **Cam 1** | **Cam 2** | **Cam 3** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| **Sefyllfa A** | 3 | 3 | 6 | 12 |
| **Sefyllfa B** | 4 | 6 | 8 | 18 |
| **Sefyllfa C** | 5 | 9 | 10 | 24 |

**Tabl 1: Nifer y "newidiadau neu estyniadau" a ragwelir.**

33. Nodir y gwerth presennol a'r arbedion costau fesul blwyddyn a gynhyrchir gan y sefyllfaoedd hyn yn y tabl canlynol.[2]

[1] Rhennir prosiectau dadgomisiynu sifil yn dri cham fel rheol. Mae'r cam cyntaf yn gysylltiedig â glanhau ar ôl cael gwared â thanwydd a gwaith i sicrhau bod y safle'n ddiogel ar gyfer yr ail gam. "Gofal a chynnal a chadw" yw'r ail gam, lle y gadewir y safle i alluogi pydredd ymbelydrol naturiol. "Clirio'r safle" yw'r cam olaf lle y bydd y safle'n dychwelyd i gyflwr sy'n addas i'w ddefnyddio yn y dyfodol.

[2] Cyfrifwyd y ffigurau fesul blwyddyn yn y ddogfen hon drwy rannu gwerth presennol y gost gan ffactor a nodir fesul blwyddyn. Mae'r trawsffurfiad hwn yn rhoi ffigur sy'n cynrychioli llif blynyddol o arian sydd, pan gânt eu diystyru yn ystod y cyfnod arfarnu o 100 mlynedd, yn gyfystyr â'r gwerth presennol. Ar gyfer y ddogfen hon, 32.55 yw'r ffactor a nodir fesul blwyddyn.

| | | Arbedion Costau Presennol | Arbedion Cost |
|---|---|---|---|
| Sefyllfa A | Posibilrwydd (i) | £7,900,000 | £242,000 |
| | Posibilrwydd (ii) | £16,700,000 | £514,000 |
| Sefyllfa B | Posibilrwydd (i) | £10,200,000 | £313,000 |
| | Posibilrwydd (ii) | £22,300,000 | £686,000 |
| Sefyllfa C | Posibilrwydd (i) | £11,700,000 | £360,000 |
| | Posibilrwydd (ii) | £26,600,000 | £816,000 |

**Tabl 2: Arbedion Costau yn sgîl Ymestyn Prosiect**

34. Mae cyfanswm y buddiannau economaidd ar gyfer yr opsiwn hwn yn cynnwys yr arbedion costau yn sgîl lleihau cyfanswm amser y prosiect. Mae'r arbedion yn amrywio o £7,900,000 i £26,600,000 o ran gwerth presennol, gan ddibynnu ar y tybiaethau a wnaed. Gellir mynegi'r rhain fel ffigurau fesul blwyddyn o £242,000 ac £816,000 yn y drefn honno.

**Cyfanswm y buddiannau**

35. Nid oes unrhyw opsiynau ychwanegol ar gyfer opsiwn 1.

36. Ceir buddiant amgylcheddol posibl o dan opsiwn 2 pe arweiniai'r Asesiadau Effeithiau Amgylcheddol a gynhelir gan y Weinyddiaeth Amddiffyn at fynd i'r afael â rhai materion amgylcheddol newydd.

37. Mae gan opsiwn 3 fuddiant posibl (nas mesurwyd) os bydd lleihau cyfanswm yr amser a gymerir i gwblhau prosiect dadgomisiynu yn arwain at ganlyniadau iechyd a diogelwch cadarnhaol. Mae opsiwn 3 hefyd yn cyflwyno buddiannau economaidd o tua £7,900,000 i £26,600,000 o ran gwerth presennol neu £242,000 i £816,000 o ran gwerth fesul blwyddyn.

**COSTAU**

**Costau Cymdeithasol**

38. Nid oes unrhyw gostau cymdeithasol wedi'u rhagweld ar gyfer unrhyw un o'r opsiynau hyn.

**Costau Amgylcheddol**

39. Ni ddisgwylir unrhyw gostau amgylcheddol o dan unrhyw un o'r opsiynau hyn.

**Costau Economaidd**

***Opsiwn 1***

40. Nid oes unrhyw gostau economaidd ychwanegol o dan opsiwn 1.

***Opsiwn 2***

41. Mae opsiwn 2 yn cael gwared â'r eithriad a gymhwysir i brosiectau dadgomisiynu niwclear sy'n "gwasanaethu dibenion amddiffyn cenedlaethol" ac, fel y cyfryw,

bydd yn ofynnol i'r Weinyddiaeth Amddiffyn gynhyrchu Datganiadau Amgylcheddol ar gyfer y prosiectau hyn.

42. Bydd y gwaith o ddadgomisiynu'r llongau tanfor yn digwydd ar safleoedd ISOLUS (Storio Llongau Tanfor Segur Dros Dro) penodol. Mae'n bosibl y bydd hyd at 4 safle o'r fath, a bydd angen i bob un o'r rheini gynnal Asesiadau Effaith Amgylcheddol a chynhyrchu Datganiadau Amgylcheddol. Amcangyfrifir mai cost pob un o'r datganiadau hyn yw £300,000 o ran prisiau 2005.

43. Caiff y Datganiadau Amgylcheddol eu hasesu, ac ymgynghorir arnynt gan HSE. Gan dybio bod pob asesiad yn cymryd 2 ddiwrnod gwaith ar gyfer swyddog Band 1, 53 diwrnod ar gyfer Band 3, 64 ar gyfer Band 5 ac 20 diwrnod ar gyfer Band 6, disgwylir y bydd yn costio £19,000 i'r HSE fesul datganiad, o ran prisiau 2005.

44. Tybir bod pedwar asesiad amgylcheddol ar ddechrau'r gwaith dadgomisiynu ac yn ystod y blynyddoedd dilynol, y bydd rhwng 5 a 10 newid neu estyniad a wasgarir yn gyfartal dros amser.[3] Bydd costau cynhyrchu ac asesu'r datganiadau amgylcheddol fel a ganlyn.

| | **Cost i'r Weinyddiaeth Amddiffyn** | **Cost i HSE** | **Cyfanswm y Gost** |
|---|---|---|---|
| 5 newid | £2,300,000 (£72,000) | £151,000 (£5,000) | £2,500,000 (£77,000) |
| 10 newid | £3,600,000 (£109,000) | £228,000 (£7,000) | £3,700,000 (£113,000) |

**Tabl 3: Cost Datganiadau Amgylcheddol i'r Weinyddiaeth Amddiffyn a HSE**

**Costau Presennol (Ffigurau fesul blwyddyn mewn cromfachau)**

45. Mae cynhyrchu a derbyn cymeradwyaeth yn dilyn Datganiad Amgylcheddol yn cymryd blwyddyn, fel rheol. Yn ystod yr amser hwn, ni ellir cyflawni unrhyw waith ar y safle a gohirir dyddiad cwblhau'r prosiect am flwyddyn. Cost blwyddyn o waith ar safle o ran prisiau presennol yw £300,000. Gan mai effaith gohirio gwaith yw gohirio dyddiad cwblhau'r prosiect, mae'n rhaid diystyru'r ffigur hwn.

46. Gan dybio bod amserlen y newidiadau fel y nodir ym mharagraff 44 yn gywir, £240,000 (£7,000 fesul blwyddyn) yw cyfanswm cost gwerth presennol gohirio'r gwaith i'r Weinyddiaeth Amddiffyn ar gyfer 5 newid a £447,000 (£14,000 fesul blwyddyn) ar gyfer 10 newid.

47. Mae cyfanswm y costau economaidd ar gyfer yr opsiwn hwn rhwng £2,800,000 (5 newid ychwanegol) a £4,100,000 (10 newid ychwanegol) o ran gwerthoedd presennol neu rhwng £84,000 a £127,000 fel ffigurau fesul blwyddyn.

***Opsiwn 3***

48. Mae costau economaidd opsiwn 3 yr un peth â'r rheini a nodwyd ar gyfer opsiwn 2.

[3] Mae'n bwysig nodi bod y gwerthoedd hyn wedi'u dewis at ddibenion dangos yn unig gan ei bod yn anodd rhagweld nifer debygol y newidiadau neu'r estyniadau sy'n deillio o amgylchiadau nas rhagwelir.

49. Mae'r amserlen a nodir yn Nhabl 1 yn tybio'n llwyr fod nifer y "newidiadau neu estyniadau" yn annibynnol ar y drefn y mae safle yn gweithredu oddi tani. Dyma'r achos lle y caiff newidiadau o'r fath eu hysgogi gan bryderon rheoleiddio. Mae'n bosibl y byddai cyflwyno opsiwn 3 yn peri cynnydd mewn ceisiadau dewisol am newidiadau gan weithredwyr safleoedd, gan ei fod yn lleihau'r gost o wneud newid o'r fath. Yn y sefyllfa hon, byddai angen ystyried y gost o gynhyrchu ac asesu'r Asesiadau Amgylcheddol ychwanegol. Fodd bynnag, gan mai dim ond os bydd y costau net yn llai na dim y bydd gweithredwr safle yn cynnig newid dewisol o'r fath, ni ystyriwyd y posibilrwydd hwn gan na fyddai'n effeithio'n sylweddol ar y dasg o gyfrifo cyfanswm y costau.

**Cyfanswm y costau i gymdeithas**

50. Nid oes unrhyw gostau ar gyfer opsiwn 1.

51. Mae cyfanswm y costau ar gyfer opsiwn 2 rhwng £2,800,000 (5 newid ychwanegol) a £4,100,000 (10 newid ychwanegol) o ran gwerth presennol neu rhwng £84,000 a £127,000 fel ffigurau fesul blwyddyn.

52. Mae cyfanswm y costau ar gyfer opsiwn 3 yr un peth â'r rheini ar gyfer opsiwn 2.

## EFFAITH AR GWMNÏAU BACH

53. Ni fydd y diwygiadau arfaethedig hyn yn effeithio o gwbl ar gwmnïau bach oherwydd byddant yn effeithio ar brosiectau dadgomisiynu sy'n cyflogi llawer mwy o gyflogeion na'r nifer a ddiffinnir ar gyfer cwmni bach.[4]

54. Fodd bynnag, *gellid* is-gontractio rhai agweddau ar brosiect dadgomisiynu i gwmnïau allanol, y gall rai ohonynt fod yn gwmnïau bach fel y diffinnir yn yr Asesiad Effaith Reoleiddio hwn.

55. Felly, mae'n dra phosibl y bydd sefyllfa lle y gallai gwaith ar ran(nau) o'r safle gael ei ohirio - oherwydd bod newid/estyniad ar y rhan(nau) honno/hynny o'r prosiect dadgomisiynu sy'n arwain at SAEE - hyd nes y caiff Datganiad Amgylcheddol ei gwblhau ac y cynhelir ymgynghoriad arno. Gallai hyn gael effaith anghyfrannol ar gwmni bach os caiff ei is-gontractio i ymgymryd â gwaith lle y bydd newid o'r fath yn digwydd.

56. Fodd bynnag, ni ellir gwerthuso effaith hyn ar hyn o bryd, am nad yw gwaith ar brosiect(au) dadgomisiynu erioed wedi cael ei is-gontractio i gwmni bach (fel y'i diffinnir), a hyd yn oed pe gwnaed hynny, mae angen ystyried yr effaith ar y cwmni bach hwnnw o ran pa gontract bynnag y cytunir arno mewn gwirionedd.

57. Ni ddisgwylir i'r diwygiadau sy'n ofynnol er mwyn cywiro'r gwallau argraffyddol a nodwyd gan JCSI a'r newidiadau a wnaed i gyfarwyddeb gychwynnol EIADR99, gael effaith ar gwmnïau bach (fel y'u diffinnir).

## ASESU'R GYSTADLEUAETH

[4] Diffinnir cwmnïau bach fel cwmnïau sydd â llai na 50 o gyflogeion, llai na £4.4m o drosiant y flwyddyn neu fantolen sy'n llai na £3.18m y flwyddyn, a dim mwy na 25% o'r busnes yn eiddo i fusnes nad yw'n fusnes bach.

58. Mae pob un o'r tri opsiwn a ystyriwyd yn seiliedig ar yr un gyfres o reoliadau ac nid ydynt yn effeithio'n wahanol ar y sector dan ystyriaeth. Am y rheswm hwn, ystyrir y tri opsiwn gyda'i gilydd ar gyfer yr asesiad hwn o gystadleuaeth.

59. Mae'r Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear (NDA) yn rhan flaenllaw o'r sector y mae rheoliadau EIADR99 yn effeithio arno. Er ei bod yn debygol y bydd yr NDA yn cyflogi sefydliadau eraill ar gyfer rhan o'r gwaith neu'r gwaith i gyd, ar yr NDA y bydd y rheoliad yn effeithio'n uniongyrchol felly dim ond yr effeithiau ar yr NDA y mae'r asesiad hwn o gystadleuaeth yn eu hystyried.

60. Mae'r NDA yn gorff cyhoeddus mawr sydd â mwy na 50% o gyfran y farchnad yn y sector dadgomisiynu niwclear. Nid yw'r rheoliadau a gaiff eu hystyried yn debygol o gael unrhyw effaith ar strwythur y diwydiant ar y lefel hon ac ni fydd yn effeithio ar unrhyw sefydliad arall i raddau mwy neu lai helaeth na'r NDA.

61. Byddai unrhyw weithredwyr yn y sector yn y dyfodol yn wynebu yn union yr un costau rheoleiddio (cychwynnol a pharhaus) â'r NDA ac ni nodweddir y sector dadgomisiynu niwclear gan farchnad sy'n caniatáu i gwmnïau ddewis eu cymysgedd o ganlyniadau.

62. Nodweddir y sector gan newid technolegol cyflym, ond o gofio'r dadansoddiad uchod, ni ystyrir y bydd unrhyw un o'r opsiynau a gyflwynir yn cael effaith sylweddol ar gystadleuaeth yn y sector dadgomisiynu niwclear.

## BALANS COSTAU A BUDDIANNAU

63. Nid yw'r Asesiad Effaith Reoleiddio wedi ceisio mesur yr holl fuddiannau sy'n gysylltiedig â'r tri opsiwn a gyflwynir. Ymhlith y buddiannau hyn mae effeithiau cyflwyno Asesiadau Effaith Amgylcheddol ar gyfer prosiectau sy'n gysylltiedig ag amddiffyn ac, yn bwysicach, cwtogi'r amserlen ar gyfer dadgomisiynu ffatrïoedd ynni niwclear sifil.

64. Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig ag opsiwn 1 ac mae gan opsiwn 2 gostau o tua £2,500,000 o ran gwerth presennol (£107,000 fesul blwyddyn). Mae opsiwn 3 yn cynnwys y costau sy'n gysylltiedig ag opsiwn 2, ond nid yw'n creu unrhyw gostau ychwanegol.

65. Mae'r buddiannau mawr yn cronni o dan opsiwn 3, ar ffurf arbedion costau. Mae'r buddiannau hyn yn amrywio o £7,900,000 i £26,600,000 (£242,000 i £816,000 fesul blwyddyn).

66. Mae'n amlwg o'r amrediadau a gyflwynir uchod bod y buddiannau cyffredinol a amlinellwyd ar gyfer opsiwn 3 yn bwysicach na'r costau sy'n gysylltiedig â chynnwys prosiectau amddiffyn yng nghylch gwaith y ddeddfwriaeth.

### Ansicrwydd

67. Mae llawer o'r ffigurau a'r tybiaethau yn y ddogfen hon yn seiliedig ar amcangyfrifon o'r canlyniadau mwyaf tebygol, nad oes modd bod yn siŵr ohonynt.

68. Yn arbennig, mae'n hynod anodd amcangyfrif faint o newidiadau y mae'n debygol y bydd eu hangen ar gynllun gwaith presennol. Drwy ddiffiniad, dylai'r

cynllun gwaith presennol ystyried pob digwyddiad a ragwelir yn y dyfodol. Felly, dim ond y newidiadau na ellid eu rhagweld fydd yn digwydd. At ddiben y ddogfen hon, golyga hyn fod amcangyfrifon o ran nifer y newidiadau yn y dyfodol a chostau cysylltiedig y newidiadau hynny yn debygol o fod yn anghywir.

69. O dan opsiynau 2 a 3, mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn cadw opsiwn o wneud cais am eithriadau penodol o'r rheoliadau ar gyfer rhannau o'r broses ddadgomisiynu. Pe byddai'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn arfer yr opsiwn hwn, byddai'n mynd i gostau yn gysylltiedig â chynhyrchu'r eithriad a byddai'r Ysgrifennydd Gwladol perthnasol yn mynd i gostau wrth asesu'r cais. Byddai'r costau hyn yn cyfrif am tua £46,000 ar gyfer y cais i eithrio cyntaf a £13,000 ar gyfer ceisiadau dilynol. Fodd bynnag, ar sail ei dealltwriaeth bresennol, nid yw'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn rhagweld y bydd angen unrhyw eithriadau. Felly, ni chynhwyswyd y costau hyn yn y dadansoddiad uchod.

70. Gwnaed amcangyfrifon eang hefyd o ran rhai o fanylion y broses dadgomisiynu adweithyddion niwclear milwrol gan fod rhai o'r manylion hyn yn ddosbarthedig.

71. Er mwyn mynd i'r afael â'r problemau hyn, cyflwynwyd amrywiaeth o werthoedd posibl ar gyfer y prif newidynnau i roi amrywiaeth o ganlyniadau posibl. Fodd bynnag, nid yw'r amrywiaethau hyn yn effeithio ar y casgliadau eang y gellir eu llunio. Mae hyd yn oed yr amcangyfrif cost uchaf ynghyd â'r amcangyfrif ar gyfer y budd isaf yn rhoi budd net o £3,700,00 o ran gwerth presennol (£113,000 y flwyddyn).

## GORFODI A SANCSIYNAU

72. Caiff y diwygiadau arfaethedig eu gorfodi gan HSE yn unol â rheoliad 16 EIADR99. Mae'n rhaid i geisiadau i ddechrau neu newid prosiect dadgomisiynu – os bydd newid/estyniad yn digwydd ar ran(nau) o safle lle bod SAEE – gydymffurfio â gofynion EIADR99. Nid oes unrhyw ffyrdd amgen o gydymffurfio/gorfodi, felly nid oes unrhyw ystyriaeth ar y costau a'r cyfraddau effaith tebygol (h.y. amgen).

73. Manylir ar y sancsiynau ar gyfer diffyg cydymffurfiaeth yn adrannau 18 i 26 a 33 i 42 Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974.

## TREFNIADAU AR GYFER MONITRO A GWERTHUSO

74. Disgwylid y câi gwerthusiad o effaith y diwygiadau hyn ei gynnal dair blynedd ar ôl eu gweithredu. Er mwyn mesur yr effaith, bydd angen casglu gwybodaeth gan randdeiliaid am effeithiolrwydd y diwygiadau er na phenderfynir ar y dull o wneud hyn tan yn agosach ar y dyddiad adolygu. Yn y cyfamser, gellir monitro effeithiau'r diwygiadau arfaethedig gan unrhyw adborth a dderbynnir gan randdeiliaid drwy'r sianelau cyfathrebu presennol.

## Man cyswllt

Jason Batt
Policy Group, HSE
Rose Court 2
Southwark Bridge
London SE1 9HS

Ffôn: 020 7717 6875

Dyddiad: 1af Gorffennaf 2005